Hydref 2017

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Interim

## Asesiad o'r cynnydd a wnaed o ran Cynllun Blynyddol 2017-18 rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2017

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mae’r Adroddiad Interim hwn yn trafod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2017. Fe’i paratowyd, ac fe’i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar y cyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae’r Adroddiad Interim yn cynnwys asesiad:

- o’r graddau y mae’r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi arfer eu swyddogaethau yn unol â’r Cynllun Blynyddol a baratowyd ar gyfer 2017-18 o dan adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013;
- o’r cynnydd a wnaed i gyflawni’r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun; ac
- o’r cynnydd a wnaed i gyflawni ein targedau o ran y dangosyddion perfformiad allweddol.

Os hoffech gael copi o’r cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio’r manylion isod. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg a byddwn yn ateb yn iaith yr ymholiad. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

| | |
|---|---|
| Ffôn | 02920 320 500 |
| E-bost | post@archwilio.cymru |
| Gwefan | www.audit.wales |
| Twitter | @WalesAudit |


Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

© Auditor General for Wales 2017

# Cynnwys


Rhagair 4

Trosolwg

Rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2017, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyflawni eu swyddogaethau yn unol â'r strategaeth a nodir yng Nghynllun Blynyddol 2017-18 5

Ni fu'n rhaid gwyro'n sylweddol oddi wrth raglenni gwaith arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru 9

Rydym yn dal i wneud cynnydd da tuag at gyflawni ein blaenoriaethau tair blynedd 10

Dadansoddiad o'r perfformiad

Rydym yn dal i wneud cynnydd da tuag at gyflawni ein targedau o ran y dangosyddion perfformiad allweddol 14

Atodiad

Gwybodaeth fanwl am y rhaglenni gwaith a gyflawnwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2017 18

# Rhagair

Mae'r Adroddiad Interim hwn yn disgrifio'r cynnydd a wnaed i gyflawni Cynllun Blynyddol 2017-18.

Dros y chwe mis diwethaf, ni fu'n rhaid inni wyro'n sylweddol oddi wrth y rhaglenni gwaith a nodir yn ein Cynllun. Mae'r rhaglenni hynny'n seiliedig ar bum thema strategol lefel uchel:

- Adrodd ag awdurdod ynghylch a yw cyrff cyhoeddus yn ymddwyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy
- Cefnogi rheolaeth ariannol gadarn yn y sector cyhoeddus mewn cyfnod o gynni
- Defnyddio data yn fwy effeithiol a chroesawu'r dechnoleg ddiweddaraf
- Symleiddio ein prosesau busnes a chryfhau ein trefniadau llywodraethu
- Adolygu ac addasu ein dull archwilio

Mae'r holl waith arfaethedig wedi'i gyflawni, neu'n mynd rhagddo yn ôl y bwriad, ac mae hyn yn brawf o broffesiynoldeb, ymroddiad a gwaith caled staff Swyddfa Archwilio Cymru ac o gydweithrediad y cyrff a archwilir.

Fel y nodir yn yr Adroddiad hwn, rydym hefyd wedi gwneud cynnydd da ers cyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016-17 tuag at gyflawni ein blaenoriaethau tair blynedd a'n dangosyddion perfformiad allweddol i geisio gwella effeithiolrwydd gwaith archwilio'r sector cyhoeddus yng Nghymru.



**Isobel Garner**
Cadeirydd, ar ran Swyddfa Archwilio Cymru




**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Trosolwg

## Rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2017, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyflawni eu swyddogaethau yn unol â'r strategaeth a nodir yng Nghynllun Blynyddol 2017-18

### Gwneud i arian cyhoeddus gyfrif




Gan ystyried y ffactorau a fydd, yn ein tyb ni, yn dylanwadu fwyaf ar y ffordd y byddwn yn cyflawni ein nodau a'n hamcanion dros y tair blynedd nesaf, mae Cynllun Blynyddol 2017-18 yn seiliedig ar bum thema strategol lefel uchel.

Yn yr adran nesaf, ceir rhai enghreifftiau o'r ffordd y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru wedi arfer eu swyddogaethau yn unol â'r themâu hynny rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2017.

### Llunio adroddiadau awdurdodol ynghylch p'un a yw cyrff cyhoeddus yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy

Hyd yma yn 2017-18, rydym wedi:

- dechrau paratoi sylwebaeth ar y trefniadau a roddwyd ar waith gan bob un o'r 44 corff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf ers i'r dyletswyddau llesiant gychwyn ar 1 Ebrill 2016;
- cyflawni mwy o waith peilot gyda detholiad o gyrff cyhoeddus;
- cynnal cyfres o weithdai â rhanddeiliaid i hysbysu'r dull archwilio yn y dyfodol;
- bod yn gweithio i sicrhau bod egwyddorion y Ddeddf, yn bennaf y Pum Dull o Weithio, yn cael eu hymgorffori i weithgareddau'n Tîm Cyfnewidfa Arfer Da; a
- llunio memorandwm cyd-ddealltwriaeth â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn amlinellu sut rydym yn bwriadu gweithio â'n gilydd yn y dyfodol.

### Cefnogi rheolaeth ariannol gadarn yn y sector cyhoeddus mewn cyfnod o galedi

Hyd yma yn 2017-18, rydym wedi:

- cydweithio â Llywodraeth Cymru a Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr i gynnal cyfres o weminarau i gynorthwyo gwasanaethau cyhoeddus i wella'r modd y maent yn llywodraethu ac i hwyluso rhannu dulliau newydd o feithrin cydnerthedd ariannol.
- cyflawni astudiaethau ac archwiliadau ynghylch: Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, Cymorth ariannol Llywodraeth Cymru i Ynni Sir Gâr, Cynllunio arbedion mewn cynghorau yng Nghymru, a Chyllid cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru.
- archwilio cyfrifon 800 o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, cyrff llywodraeth ganolog, awdurdodau unedol a chynghorau tref a chymuned. Rydym wedi cyhoeddi barn archwilio 'amodol' ar gyfer pedwar bwrdd iechyd lleol oherwydd iddynt fynd tu hwnt i'w terfynau adnoddau ariannol cymeradwy, a chyhoeddi Adroddiad er Budd y Cyhoedd i dynnu sylw at wendidau sylweddol o ran y modd y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi caffael gwasanaethau ymgynghori adnoddau dynol.

**Defnyddio data yn fwy effeithiol a manteisio ar dechnoleg arloeso**

Hyd yma yn 2017-18, rydym wedi:

- cwblhau rhaglen gychwynnol o waith i drawsnewid y ffordd yr ydym yn defnyddio data a thechnoleg fel rhan o'n gwaith archwilio, a chychwyn ar raglen debyg i geisio gwella'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill;
- prynu amryw o ddiweddariadau technolegol hanfodol, gan gynnwys gliniaduron hybrid sy'n lleihau'r angen i argraffu ac yn lleihau'r defnydd o bapur, a chychwyn ar y broses o ddatblygu ein gallu i ddadansoddi data; a
- chynnal dau ddigwyddiad dysgu ar y cyd: gweminar ar ddeall sut y gall 'safonau agored' helpu i integreiddio gwasanaethau cyhoeddus yn well a seminar ar wella arweinyddiaeth a pherchnogaeth ddigidol.

**Symleiddio ein prosesau busnes ac atgyfnerthu ein trefniadau llywodraethu**

Hyd yma yn 2017-18, rydym wedi:

- cryfhau strategaeth y gweithlu a threfniadau cynllunio'r gweithlu i helpu i sicrhau bod modd inni ateb y galw presennol yn well ac ymateb i ddatblygiadau yn ein hamgylchedd gweithredol yn y dyfodol;
- dyrannu swyddogaethau arweiniol corfforaethol ychwanegol i bob un o aelodau'r Uwch Dîm Rheoli i sicrhau bod amryw o themâu y cytunwyd arnynt yn cael eu llywio ar lefel uwch, a bod atebolrwydd amdanynt ar y lefel honno, gan gynnwys ymgysylltu â staff, datblygu pobl, dadansoddi data, a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg; a
- pharhau i geisio cyfrannu cymaint â phosibl at gyflawni saith nod llesiant Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar wella ein stiwardiaeth amgylcheddol a chyflawni ein rhaglen arbedion ac effeithlonrwydd sydd wedi arbed £1.269 miliwn yn ystod y flwyddyn hyd yma.

## Adolygu ac addasu ein dull archwilio

Hyd yma yn 2017-18, rydym wedi:

- gwneud cynnydd da tuag at addasu ein dull archwilio a’r model ar gyfer defnyddio adnoddau archwilio, a hynny er mwyn paratoi ar gyfer y cynlluniau i gau cyfrifon llywodraeth leol yn gynt erbyn 2020-21.
- adeiladu ar y cynnydd a wnaed i dreialu dull newydd o ardystio grantiau sy’n seiliedig ar ganlyniadau. Yn yr ail flwyddyn, estynnwyd y cynllun peilot i gynnwys cynghorau Sir Benfro a Chaerdydd (yn ogystal â Chastell-nedd Port Talbot a Wrecsam). Ar hyn o bryd, rydym yn cydweithio â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i bennu pryd y dylid cyflwyno’r dull peilot o ymgymryd â gwaith grantiau yn llwyr ar draws sector llywodraeth leol Cymru.

## Ni fu’n rhaid gwyro’n sylweddol oddi wrth raglenni gwaith arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru

O ran holl waith arfaethedig 2017-18, fel y’i nodir yn ein Cynllun Blynyddol, rydym wedi ei gyflawni neu mae’n mynd rhagddo yn ôl y bwriad.

**Atodiad – Gwybodaeth fanwl am y rhaglenni gwaith a gyflawnwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2017**

Yn y Cynllun, nodir bod y rhaglen o waith archwilio i’w hystyried gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd i sicrhau bod modd ymateb i amgylchiadau, blaenoriaethau a risgiau sy’n newid, a bod y cynlluniau ar gyfer rhai astudiaethau gwerth am arian yn cael eu hadolygu.

Ers cyhoeddi ein Cynllun, rydym wedi newid teitl rhai astudiaethau gan fod cwmpas y gwaith wedi’i ddiffinio’n fwy pendant erbyn hyn.

Ym mis Mehefin 2017, bu i’r Archwilydd Cyffredinol gadarnhau â’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gynlluniau ar gyfer rhai astudiaethau gwerth am arian newydd a fydd yn cychwyn yn ystod y flwyddyn hon. Nodir y darnau hynny o waith yn y trosolwg o’r gwaith sy’n mynd rhagddo yn yr Atodiad i’r Adroddiad hwn. Mewn rhai achosion, bydd yr astudiaethau newydd yn adeiladu ar rannau eraill o raglen waith yr Archwilydd Cyffredinol.

## Rydym yn dal i wneud cynnydd da tuag at gyflawni ein blaenoriaethau tair blynedd

O ystyried y sefyllfa fel yr oedd ar 30 Medi 2017, rydym ar y trywydd iawn i gyflawni pob un o'r deg blaenoriaeth a nodir yng Nghynllun Blynyddol 2017-18.

| Blaenoriaeth | Pryd | Sylwebaeth |
|---|---|---|
| 1 Datblygu dull gweithredu, trwy weithio ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol, i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. | 2017-18 | Cafodd cynllun prosiect ei lunio ac mae Bwrdd Rhaglen sy'n cynnwys pedwar aelod o'n Pwyllgor Rheoli'n goruchwylio'r cynllun o dan gadeiryddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol.<br>Mae'r gwaith ar sylwebaeth y flwyddyn gyntaf yn mynd rhagddo ym mhob un o'r 44 corff ac rydym wrthi'n llunio memorandwm cyd-ddealltwriaeth â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. |
| 2 Canolbwyntio ar waith sy'n archwilio trefniadau rhanbarthol ac eraill o weithio mewn partneriaeth, gan gynnwys y rhyngwyneb rhwng darpariaethau iechyd a gofal cymdeithasol. | 2017-19 | Rydym wrthi'n cwblhau astudiaeth llywodraeth leol ar wella llesiant drwy addasu tai, gan ganolbwyntio'n benodol ar drefniadau partneriaeth a chydweithredu perthnasol.<br>Rydym hefyd yn cwblhau adolygiad o'r trefniadau comisiynu strategol ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu sy'n ystyried effeithiolrwydd trefniadau comisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol.<br>Yn ystod y chwe mis diwethaf, rydym hefyd wedi cyhoeddi galwad am dystiolaeth i osod sylfaen ar gyfer archwiliad o'r trefniadau gweithio rhanbarthol a chydweithredol i gyflawni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. |

| Blaenoriaeth | Pryd | Sylwebaeth |
|---|---|---|
| 3 Atgyfnerthu ein hymgysylltiad â'n gwaith ymhlith pwyllgorau'r Cynulliad, a dod o hyd i ffyrdd o wella ein gwaith ar gefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol ymhellach. | 2017-20 | Yn ychwanegol at ymgysylltu'n helaeth â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ôl yr arfer, rydym wedi rhoi tystiolaeth ar faterion cyllidebol a chyllidol i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol yn ddiweddar. Mae ein gwaith archwilio hefyd wedi gosod sylfaen ar gyfer adroddiad diweddar Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar Fasnachfraint y Rheilffyrdd a Metro De Cymru, ac rydym wedi ymgysylltu â'r ymchwilwyr a'r clercod sy'n cefnogi'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i drafod ein hadolygiad o Weithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014.<br>Ym mis Medi 2017, cymerodd staff Swyddfa Archwilio Cymru ran mewn digwyddiad rhwydwaith a gynhaliwyd gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol i rannu profiadau o ran y modd y mae pwyllgorau cyffelyb yn gweithio ar draws y DU a thu hwnt. |
| 4 Gwella effaith gyfunol prosesau archwilio, arolygu ac adolygu allanol yng Nghymru trwy weithio'n agosach ag Arolygu Cymru a phartneriaid eraill a thrwy ddefnyddio gwybodaeth ac adnoddau ar y cyd yn well. | 2017-20 | Rydym yn cyfrannu at raglen waith y cytunir arni drwy fforwm Arolygu Cymru ac, am yr ail flwyddyn, bu inni rannu stondin â'n partneriaid yn y Sioe Frenhinol i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith ac ymgysylltiad ag ef.<br>Rydym hefyd yn mynd i gyfarfodydd chwarterol ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac amryw o Gomisiynwyr penodedig eraill.<br>Dros y chwe mis diwethaf, rydym wedi parhau i gysylltu ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, yn enwedig i drafod ein hadolygiad ar y cyd o drefniadau llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. |
| 5 Hwyluso'r gwaith o weddnewid archwiliadau mewn modd strategol, trwy wella ein defnydd o ddata a thechnoleg, a'n dulliau cyfathrebu. | 2017-20 | Yn sgil ein gwaith i drawsnewid y ffordd yr ydym yn defnyddio data a thechnoleg yn ein gwaith archwilio, rydym wedi sefydlu grŵp dadansoddi data mewnol gyda chyfarwyddwr arweiniol yn ddiweddar. Ein nod yw sicrhau adnoddau ychwanegol drwy'r broses amcangyfrif i fuddsoddi mewn prosiect tair blynedd i gefnogi ein gwaith yn y maes hwn, ac rydym wedi trefnu i ddysgu o drefniadau a phrofiadau asiantaethau archwilio eraill y DU. |

| Blaenoriaeth | Pryd | Sylwebaeth |
|---|---|---|
| 6 Adolygu ein model ar gyfer defnyddio adnoddau archwilio i baratoi ar gyfer y newidiadau sydd i ddod i'n hamgylchedd gweithredu, gan gynnwys yn benodol, cyflwyno dyddiadau cau cynt ar gyfer cyfrifon llywodraeth leol. | 2017 | Mae ein timau archwilio lleol wedi parhau i gydweithio â'r tri chyngor peilot (Torfaen, Wrecsam a Sir Benfro) yn ystod hanner cyntaf 2017-18 i wneud gwelliannau pellach i'r prosesau archwilio a pharatoi cyfrifon.<br>Rydym hefyd wedi archwilio cyfrifon 2016-17 nifer o gynghorau eraill yn gynharach na'r blynyddoedd blaenorol. Mae'r gwaith yn y maes hwn yn mynd rhagddo'n dda. |
| 7 Adnewyddu ein strategaeth bobl ac ysgogi newid diwylliant yn Swyddfa Archwilio Cymru trwy ymwreiddio fframwaith newydd o werthoedd ac ymddygiadau cytunedig. | 2017-18 | Ar hyn o bryd, rydym yn ymgynghori â'n staff a'r undebau llafur ynghylch Strategaeth Pobl ddrafft, gan gynnwys blaenoriaethau tair blynedd.<br>Yn ddiweddar, mae'r grŵp diwylliant staff wedi pennu cyfres newydd o werthoedd ac ymddygiadau dymunol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, a'r rheini'n gysylltiedig â'n nod o fod yn sefydliad sy'n lle gwych i weithio ynddo. Mae ffrydiau gwaith yn eu lle i sicrhau bod y gwerthoedd a'r ymddygiadau hyn yn ennill eu plwyf ar draws y sefydliad, gan gynnwys drwy ddiwygio ein fframwaith cymwyseddau sy'n diffinio'r wybodaeth, y sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen ar bobl yn ein sefydliad. |

| Blaenoriaeth | Pryd | Sylwebaeth |
| --- | --- | --- |
| 8 Llunio a chymhwyso cynlluniau gweithredu sydd â'r nod o leihau ein bylchau cyflog o ran rhyw, oedran ac ethnigrwydd a sicrhau ein bod yn cydymffurfio â safonau newydd y Gymraeg. | 2017-18 | Cyhoeddwyd ein Hadroddiad Cydraddoldeb blynyddol ar gyfer 2016-17 ym mis Medi 2017, ac mae'n cynnwys ymrwymiad i fynd i'r afael, drwy'r prosiect newid diwylliant a'r gwaith o lunio Strategaeth Pobl newydd, â'r adborth a gafwyd gan grŵp ffocws o aelodau staff a fu'n ystyried ffyrdd o leihau ein bylchau cyflog.<br><br>Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â safonau newydd y Gymraeg. Un o'r prif feysydd yr ydym yn canolbwyntio arno yw'r Cynllun Cymraeg Gwaith sy'n cynnig cyfleoedd dysgu carlam i staff mewn swyddi allweddol a bennwyd yn ein dadansoddiad swyddi diweddar. Ers mis Ebrill 2017, mae'n orfodol bod pob aelod newydd o'r staff yn cwblhau'r cwrs 'Croeso', ac rydym hefyd yn cynnig y cwrs hwn i'r holl staff presennol heb unrhyw sgiliau Cymraeg. |
| 9 Datblygu cynigion ar gyfer symleiddio a gwella effeithiolrwydd cost y trefniadau ariannu ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, i'w hystyried gan y Cynulliad Cenedlaethol. | 2017-18 | Cyhoeddwyd ein Papur Trafod: Symleiddio Trefn Ffioedd Gymhleth ar 6 Mehefin 2017 ac fe'i rhannwyd â'r holl gyrff a archwilir a rhanddeiliaid allweddol eraill. Daeth amryw o ymatebion i law ar draws y sectorau a archwilir. Yn fuan, byddwn yn cyhoeddi adroddiad a fydd yn amlinellu ein hachos dros newid, gan adeiladu ar ein papur trafod gwreiddiol a gwneud argymhellion i'r Cynulliad Cenedlaethol. |
| 10 Cynyddu ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid a'n defnydd o feincnodi allanol i helpu i wella effaith ein gwaith. | 2017-18 | Mae'r Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol a bennwyd yn ddiweddar wedi adolygu ac adfywio rôl y Cyfarwyddwyr Ymgysylltu, gyda'r nod o gael adborth o ansawdd uchel am ein gwaith gan randdeiliaid a gweithredu ar ei sail.<br><br>Yn ddiweddar, rydym hefyd wedi comisiynu tîm o ymgynghorwyr allanol i adolygu ein trefniadau i fesur effaith ein gwaith ac i adrodd arno. Mae gwaith yn mynd rhagddo i weithredu prif argymhellion yr adolygiad hwnnw, a byddwn yn defnyddio nifer ohonynt fel sylfaen ar gyfer y gwaith o baratoi Cynllun Blynyddol 2018-19. |

# Dadansoddiad o'r perfformiad

## Rydym yn dal i wneud cynnydd da tuag at gyflawni ein targedau o ran y dangosyddion perfformiad allweddol

Mae Cynllun Blynyddol 2017-18 yn cynnwys fframwaith o ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n canolbwyntio ar saith thema a chwestiwn ynghylch ein gweithgareddau. Lluniwyd cyfres o dargedau ar sail y lefelau perfformiad ar ddiwedd 2016-17 a meincnodau priodol hefyd.

Yng ngweddill yr adran hon, ceir crynodeb o'r sefyllfa ar 30 Medi 2017 o ran cyflawni'r 35 targed ar gyfer ein dangosyddion perfformiad allweddol.

Lle bo'n briodol, rydym yn asesu lefel y perfformiad ar sail flynyddol dreigl. O ran y mesurau perfformiad hyn, mae'r ffigurau'n disgrifio ein perfformiad rhwng 1 Hydref 2016 a 30 Medi 2017.

Byddwn yn cynnal arolwg staff 2017-18 yn ystod trydydd chwarter y flwyddyn. O'r herwydd, mae ein perfformiad o ran y targedau sy'n gysylltiedig â'r arolwg staff yn seiliedig ar ein perfformiad yn 2016-17.

## Effaith

I ba raddau mae ein gwaith yn hysbysu pobl Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol, yn helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i lwyddo, ac yn cael ei werthfawrogi gan ein rhanddeiliaid?

**98%**
o'n **hargymhellion** wedi'u **derbyn yn llwyr** i'w gweithredu

**80%**
o'r rhanddeiliaid wedi cael mewnwelediad defnyddiol drwy ein gwaith

**98%**
o'r rhanddeiliaid yn tybio bod yr Archwilydd Cyffredinol yn **sylwebydd awdurdodol**

**£9.35m**
o **arbedion posibl** wedi'u pennu drwy ein gwaith

**79%**
o'r rhanddeiliaid yn credu bod ein gwaith wedi arwain at **wella gwasanaethau cyhoeddus**

Wedi cyflawni ein targed · Yn agos at gyflawni ein targed · Angen gwella · Angen gwella'n sylweddol

## Cyflawni

A ydym yn cyflawni ein harchwiliadau yn brydlon ac a ydynt o'r ansawdd a'r safon broffesiynol ofynnol?

**100%**
o'r ceisiadau i dynnu arian o Gronfa Gyfunol Cymru wedi'u **prosesu cyn pen 24 awr**

**90%**
o'r cynhyrchion archwilio allweddol wedi'u **cyflawni'n brydlon**

**100%**
o'r archwiliadau wedi'u cyflawni yn unol â'r **safonau ansawdd**

**19**
o gynhyrchion **arfer da** wedi'u cyflawni

**21**
**adroddiad cenedlaethol** wedi'u cyhoeddi

## Arweinyddiaeth

A yw ein trefniadau llywodraethu ac arwain yn gweithredu'n effeithiol?

**97%**
o'r rhanddeiliaid yn dweud bod ganddynt **hyder yn ein gwaith**

**99%**
o'r staff yn cytuno bod eu **perfformiad yn cael ei werthuso'n deg**

**68%** o'r staff yn teimlo bod y bobl yn eu tîm yn cael eu hannog i feddwl am ffyrdd **newydd a gwell o wneud pethau**

**80%** o'r staff yn teimlo bod eraill yn **ymddiried** ynddynt i gyflawni eu swyddi'n **effeithiol**

Proportion o'r staff yn teimlo bod ganddynt ddealltwriaeth glir o ddiben y sefydliad (yet to be measured)

Wedi cyflawni ein targed · Yn agos at gyflawni ein targed · Angen gwella · Angen gwella'n sylweddol

## Ariannol

Pa mor dda yr ydym yn rheoli ein cyllid a'n hasedau?

**£3,231**
yw'r **gost ystad** fesul aelod staff cyfwerth ag amser llawn

**87%**
o **gyflenwyr wedi'u talu o fewn 10 diwrnod** i dderbyn anfoneb

**£1.27m**
o arbedion cost ac effeithlonrwydd wedi'u pennu drwy'r busnes

Rhagwelir y bydd lefel y gwarged ar ddiwedd y flwyddyn o fewn **0.7%** i'r gyllideb

**£128k**
o **hen ddyledion** dros 60 diwrnod

## Cymdeithasol

Pa mor dda yr ydym am hyrwyddo a chefnogi cydraddoldeb, llesiant a dysgu?

**76%**
o'r staff yn teimlo eu bod yn gallu **manteisio ar gyfleoedd dysgu priodol**

**70%**
o'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu **trin yn deg yn y gwaith**

**71%** o'r staff yn teimlo bod modd iddynt daro **cydbwysedd da rhwng eu bywyd gwaith a'u bywyd preifat**

**5.9** o **ddyddiau** gwaith cyfartalog wedi'u colli oherwydd **salwch** fesul aelod staff

**1**
gŵyn ynghylch ein darpariaeth **Gymraeg** wedi dod i law ac wedi'i chadarnhau

Wedi cyflawni ein targed · Yn agos at gyflawni ein targed · Angen gwella · Angen gwella'n sylweddol

## Amgylcheddol

Pa mor dda yr ydym am reoli ein heffaith ar yr amgylchedd?

Wedi cael achrediad
**Lefel 4**
Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd

**Wedi cynhyrchu**
**466**
**tunnell o allyriadau** $CO_2$ cyfatebol

**69.8%**
o'n gwastraff wedi'i **ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio**

**Wedi defnyddio**
**1,667**
rîm o **bapur**

**Wedi cynhyrchu**
**35**
tunnell o **wastraff**

## Cyfathrebu

Pa mor dda yr ydym am godi ymwybyddiaeth o'n gwaith ac annog pobl i ymgysylltu â'n gwaith?

**1,050**
o **bobl** wedi dod i'n **seminarau dysgu ar y cyd**

**100%**
o'r erthyglau am ein gwaith a gyhoeddwyd yn y cyfryngau yn gadarnhaol neu'n niwtral

**55** yw ein sgôr Klout sy'n adlewyrchu ein **cyrhaeddiad drwy'r cyfryngau cymdeithasol**

**0** o achlysuron lle na roddwyd ymateb i bryderon ynghylch gwariant cyhoeddus cyn pen 30 diwrnod

**201k**
**o ymweliadau â thudalennau gwe**

Wedi cyflawni ein targed | Yn agos at gyflawni ein targed | Angen gwella | Angen gwella'n sylweddol

# Atodiad

## Gwybodaeth fanwl am y rhaglenni gwaith a gyflawnwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2017

### Gwaith archwilio a wnaed mewn cyrff llywodraeth leol

Mae rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol ym maes llywodraeth leol yn cynnwys ystod eang o gyrff, gan gynnwys awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid, cronfeydd pensiwn llywodraeth leol a chynghorau tref a chymuned. Mae'r rhaglen yn cynnwys archwilio cyfrifon, ardystio ffurflenni a hawliadau grant, cyflawni archwiliadau ac asesiadau gwella, astudiaethau llywodraeth leol a gwaith archwilio ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

#### Archwilio cyfrifon

22 awdurdod unedol

3 awdurdod tân ac achub

3 awdurdod parc cenedlaethol

4 comisiynydd heddlu a throseddu

4 prif gwnstabl

8 cronfa bensiwn

Nifer o gyrff llywodraeth leol llai, gan gynnwys cydbwyllgorau ac awdurdodau harbwr

Archwiliadau sicrwydd cyfyngedig o dros 735 o gynghorau tref a chymuned

#### Astudiaethau a gwblhawyd neu a gwblhawyd i raddau helaeth

Comisiynu gwasanaethau anableddau dysgu gan awdurdodau lleol mewn modd strategol

Gwella llesiant drwy addasu tai

Sut y mae llywodraeth leol yn rheoli'r galw (gwasanaethau digartrefedd)

#### Archwiliadau ac asesiadau gwella

22 awdurdod unedol (gan gynnwys adolygiadau thematig ynghylch craffu a safbwynt defnyddwyr)

3 awdurdod tân ac achub

3 awdurdod parc cenedlaethol

#### Gwaith archwilio llesiant cenedlaethau'r dyfodol

22 awdurdod unedol

3 awdurdod tân ac achub

3 awdurdod parc cenedlaethol

#### Ardystio ffurflenni a hawliadau grant

Hyd at 20 o gynlluniau sy'n werth bron i £3 biliwn ac sy'n ymwneud ag oddeutu 300 o hawliadau

Adroddiadau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau

#### Astudiaethau sy'n mynd rhagddynt

Gwasanaethau i gymunedau gwledig

Y defnydd o ddata

Adolygiad trawsbynciol o'r Gronfa Gofal Integredig

## Gwaith archwilio a wnaed yng nghyrff y GIG

Mae gwaith yr Archwilydd Cyffredinol ar draws GIG Cymru yn cwmpasu'r saith bwrdd iechyd lleol a'r tair ymddiriedolaeth GIG, yn ogystal â gwaith Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyfrifon blynyddol pob un o gyrff y GIG, ac mae'n adrodd yn gyhoeddus ar y trefniadau sydd ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio'u hadnoddau mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol ac a yw'r cyrff a restrwyd yn ymddwyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

### Archwilio cyfrifon

- 7 bwrdd iechyd lleol
- 3 ymddiriedolaeth y GIG
- Cyfrifon cryno'r byrddau iechyd lleol
- Cyfrifon cryno ymddiriedolaethau'r GIG

### Asesiadau strwythuredig

- 7 bwrdd iechyd lleol
- 3 ymddiriedolaeth y GIG
- Cymhariaeth Cymru gyfan o agweddau ar lywodraethu

### Gwaith archwilio perfformiad lleol

- 7 bwrdd iechyd lleol
- 3 ymddiriedolaeth y GIG
- Adolygiad llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Adroddiad er budd y cyhoedd ynghylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

### Astudiaethau sy'n mynd rhagddynt

- Gwasanaethau meddygon teulu tu allan i oriau
- Cynllunio i ryddhau cleifion
- Gwasanaethau gofal sylfaenol
- Adolygiad trawsbynciol o'r Gronfa Gofal Integredig

### Gwaith archwilio llesiant cenedlaethau'r dyfodol

- 7 bwrdd iechyd lleol
- Ymddiriedolaeth GIG Felindre
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

## Gwaith archwilio a wnaed mewn cyrff llywodraeth ganolog

Mae sector llywodraeth ganolog Cymru yn cwmpasu ystod amrywiol o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi, swyddfeydd comisiynwyr, arolygwyr a rheoleiddwyr statudol amrywiol, a Chomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol.

Yn wahanol i gyrff iechyd a chyrff llywodraeth leol, nid yw'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gyflawni rhaglen o waith archwilio perfformiad ym mhob corff llywodraeth ganolog. Yn hytrach, mae'n rhoi barn flynyddol ar eu cyfrifon yn unig ac, o ran y cyrff a restrwyd, mae'n gwneud gwaith archwilio ar lesiant cenedlaethau' r dyfodol. Ar hyn o bryd, mae'r gwaith archwilio perfformiad a wneir yn y sector hwn yn rhan o raglen yr Archwilydd Cyffredinol o astudiaethau gwerth am arian.

Ym mis Mai 2017, bu inni gyhoeddi Adroddiad cryno am gyfrifon llywodraeth ganolog 2015-16; hwn oedd yr adroddiad blynyddol cyntaf am yr archwiliadau o ddatganiadau ariannol cyrff llywodraeth ganolog Cymru.

Yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae hefyd yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gymeradwyo ceisiadau gan Weinidogion Cymru i dynnu arian o Gronfa Gyfunol Cymru. O dan Ddeddf 2006, ni ellir ond cymeradwyo cais i dynnu arian o'r Gronfa os yw'r taliad arfaethedig, yn nhyb yr Archwilydd Cyffredinol, yn cael ei ganiatáu gan benderfyniad cyllidebol gan y Cynulliad neu'n uniongyrchol gan ddeddfwriaeth. Bwriedir i'r trefniadau hyn ddarparu rheolaeth ddemocrataidd gan y Cynulliad dros y modd y mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio adnoddau. Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn wedi cymryd amser anghymesur yn ddiweddar oherwydd darpariaethau cymhleth Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 sy'n peri iddi fod yn ofynnol adolygu'n barhaus gytundebau'r Cynulliad i dalu tâl deiliaid swyddi o Gronfa Gyfunol Cymru. Serch hynny, hyd yma yn 2017-18, rydym wedi cymeradwyo pob cais dilys cyn pen 24 awr ar ôl iddo ddod i law.

### Cyfrifon Llywodraeth Cymru

- Cyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru
- Cyfrif ardrethi annomestig
- Cyfrif Cronfa Gyfunol Cymru
- Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan

### Cyfrifon cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru

- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cronfa Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Prif Gyfrif a Chyfrif Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru
- Cronfa Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
- Cymwysterau Cymru

### Cyfrifon Cynulliad Cenedlaethol Cymru

- Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Cronfa Bensiwn Aelodau'r Cynulliad

### Cwmnïau Llywodraeth Cymru

- Hybu Cig Cymru
- Dewis Gyrfa
- Hwb Gwyddorau Bywyd
- Sector Development Wales

### Cyfrifon comisiynwyr, arolygwyr a rheoleiddwyr

- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Estyn
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

### Gwaith archwilio llesiant cenedlaethau'r dyfodol

- Llywodraeth Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru

## Gwaith archwilio a wnaed i'w ystyried gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Mae'r rhaglen hon o waith archwilio yn cynnwys ymchwiliadau gwerth am arian, paratoadau ar gyfer adroddiadau cryno am ganfyddiadau gwaith archwilio ar draws amryw o gyrff y GIG, cyrff llywodraeth ganolog a/neu gyrff llywodraeth leol, ac ymchwiliadau a gyflawnir yng ngoleuni materion sy'n peri pryder i'r cyhoedd sy'n codi o'n gwaith archwilio neu sy'n dod i sylw'r Archwilydd Cyffredinol. Mae allbynnau rhan helaeth o'r rhaglen hon yn ategu gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol a phwyllgorau eraill y Cynulliad o bosibl.

Yn ddiweddar, mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd wedi dweud y bydd yn ymgymryd â gwaith i gefnogi ymchwiliad arfaethedig y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Penderfynir ar gwmpas ac amseriad gwaith yr Archwilydd Cyffredinol o ran yr ymchwiliad hwn yn ddiweddarach yn 2017-18 ar ôl i gam cyntaf ymchwiliad y Pwyllgor ddod i ben.

**Astudiaethau gwerth am arian sy'n mynd rhagddynt**

- Rheoli gwastraff (atal gwastraff)
- Rheoli gwastraff (ailgylchu trefol)
- Systemau Gwybodeg GIG Cymru (NWIS)
- Mynediad at wasanaethau gyda chymorth gwasanaeth dehongli a chyfieithu arbenigol
- Cyllid busnes
- Gwasanaethau ieuenctid
- Gwasanaethau gofal sylfaenol
- Adolygiad o'r dirwedd caffael cyhoeddus
- Rheoli gwastraff (caffael seilwaith trin gwastraff)
- Paratoadau ar gyfer gweithredu datganoli cyllidol yng Nghymru (adroddiad dilynol i'w ystyried gan y Pwyllgor Cyllid)
- Datblygiad y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol
- Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020
- Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewrop 2014-2020
- Adolygiad trawsbynciol o'r Gronfa Gofal Integredig

**Adroddiadau cryno sy'n mynd rhagddynt**

- Radioleg (yn gysylltiedig ag adroddiadau NWIS)

**Astudiaethau gwerth am arian, adroddiadau cryno ac archwiliadau adweithiol a gwblhawyd**

- Rhaglen addysg ac ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif
- Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014
- Rhaglen Cefnogi Pobl
- Trefniadau comisiynu ambiwlansys brys
- Cyllid cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru
- Cymorth ariannol Llywodraeth Cymru i Ynni Sir Gâr Cyf
- Adroddiad er budd y cyhoedd ynghylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

## Cyfnewid arferion da

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi datblygu a chymhwyso dull o gyfnewid gwybodaeth gyda llwyddiant cynyddol. Mae ein dull yn cynnwys dau brif faes gweithgarwch, ac mae un ohonynt yn ymwneud â darparu adnoddau am ddim ar-lein i sicrhau bod modd i'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau, darparwyr gwasanaethau, llunwyr polisïau a phenderfynwyr gael gafael ar wybodaeth a fydd yn eu gwneud yn fwy gwybodus. Yn benodol, ein nod yw hyrwyddo camau i rannu'r wybodaeth hon ar draws ffiniau sefydliadol, daearyddol a rhyngwladol.

Mae'r maes gweithgarwch arall yn ymwneud â hwyluso trafodaethau rhwng darparwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau lle mae'r gwersi sy'n cael eu dysgu o lwyddiannau a methiannau cymharol yn cael eu rhannu wyneb yn wyneb. Yn gynyddol, rydym yn ceisio cynnwys safbwyntiau a phrofiadau arbenigwyr byd-eang yn y trafodaethau hyn.

Mae rhaglen seminarau a gweminarau'r Gyfnewidfa Arfer Da yn hyblyg a bydd rhagor o bynciau'n cael eu hychwanegu at y rhaglen yn ystod y flwyddyn. Ceir rhagor o wybodaeth am ein rhaglen waith ar arferion da ar ein gwefan.

### Seminarau dysgu ar y cyd a gynhaliwyd

- Risgiau a reolir yn dda (Rhan 1)
- Gwella arweinyddiaeth a pherchnogaeth ddigidol
- Sut y gall gwahanol ddulliau o ymgysylltu helpu i gynnwys y dinesydd yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus

### Gweminarau dysgu ar y cyd a gynhaliwyd

- Llywodraethu: cefnogi gwelliannau ar draws gwasanaethau cyhoeddus cymhleth
- Integreiddio technoleg gwybodaeth drwy safonau agored
- Meithrin cydnerthedd ariannol mewn gwasanaethau cyhoeddus

### Canllawiau arfer da a baratowyd

- Rheoli grantiau

### Hwyluso dysgu ar y cyd a chymorth cymunedol yn allanol

- Ysgol haf Academi Cymru
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Arfer Da Cymru
- Canolfan Newid Ymddygiad Cymru, Prifysgol Bangor
- Cydffederasiwn GIG Cymru
- Grwpiau ymarferwyr cydgynhyrchu 'Gweithio Gyda Nid I'
- Cyfranogaeth Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

## Gweithgareddau ymgysylltu a chydweithio

Yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi parhau i fodloni eu hymrwymiad i ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid i osod sylfaen ar gyfer datblygu gwaith yr Archwilydd Cyffredinol, i sicrhau ei fod mor berthnasol â phosibl ac i estyn dylanwad a chyrhaeddiad gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Rydym hefyd wedi cydweithio'n agos ag asiantaethau archwilio eraill y DU a'r prif gyrff adolygu eraill yng Nghymru i gynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwaith archwilio cyhoeddus ac effaith gyfun ein gwaith. Rydym yn gallu gwneud trefniadau gyda mathau penodol o gyrff i Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu gwasanaethau iddynt neu arfer swyddogaethau ynddynt, a hynny yn y DU a thramor. Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli y dylai unrhyw weithgarwch o'r fath ei ariannu ei hun ac na ddylid ymgymryd â gwaith o'r fath ar draul ein gwaith archwilio craidd yng Nghymru.

## Darpariaeth gydgysylltiedig

Menter Twyll Genedlaethol gydag asiantaethau archwilio eraill y DU

Cydweithio ag Estyn i gynnal arolygiadau dilynol o'r Consortia Gwella Addysg Rhanbarthol a'i gynorthwyo i gynnal cynadleddau gwella

Ardystio cyfrifon Cronfeydd Amaethyddol Ewrop yn flynyddol

Cyflawni adolygiad dilynol ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o drefniadau llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Llunio memorandwm cyd-ddealltwriaeth â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Cydweithio â phartneriaid eraill Arolygu Cymru ar waith ynghylch cymorth i bobl ifanc

## Cymryd rhan fel sylwedydd ar weithgorau allanol

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyngor Partneriaeth Cymru
- Bwrdd Rhaglen Weithredu Awdurdod Cyllid Cymru
- Fforwm Trethi Cymru y Gweinidog Cyllid
- Bwrdd Uned Ddata Llywodraeth Leol
- Grŵp Effeithlonrwydd, Gwerth Gofal Iechyd a Gwella GIG Cymru
- Gweithgor Penodiadau Cyhoeddus
- Bwrdd Rhaglen Sefydlu Addysg a Gwella Iechyd Cymru

## Aelodaeth o weithgorau allanol

Mae'r rhain yn cynnwys:

- EURORAI
- Rhwydwaith y Cyngor Rhyngwladol ar Adrodd Integredig ynghylch Adroddiadau Integredig y Sector Cyhoeddus
- Fforwm Archwilio Cyhoeddus
- Bwrdd Cod Awdurdodau Lleol CIPFA/LASAAC
- Pwyllgor Archwilio'r Sector Cyhoeddus ICAEW
- Panel Safonau Archwilio a Chyfrifyddu CIPFA
- Menter Arolygu Cymru
- Grŵp cyswllt yr Adran Gwaith a Phensiynau ar Ddiwygio Lles a'r Budd-dal Tai ar gyfer arolygiaethau'r DU
- Grŵp Cynghori Sector Cyhoeddus y Cyngor Adrodd Ariannol
- Cymryd rhan ym Mhrotocol Uwchgyfeirio ac Ymyrryd y GIG gyda Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

## Gwaith archwilio a gomisiynwyd

Archwilio amrywiaeth o elusennau

Gweithredu fel Prif Archwilydd Llywodraeth Anguilla ac archwilio'i chyfrifon

Grwpiau meincnodi gwastraff masnachol a rheoli gwastraff

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk